# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Llun, 18 Mawrth 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. 9.00 - 9.10 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os yw'r lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd ymhellach fod y drafodaeth o ran y swydd wag ar gyfer Llywodraethwr yn Ysgol Bryngteg fel y nodwyd yn yr adroddiad wedi'i gohirio tan y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| YSGOL GYNRADD | Penodiadau |
|---|---|
| **Abergwili**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Ms G M Adams |
| **Llan-gain**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs G Burson |
| **Hen Heol**<br>(2 le gwag – 2 enwebiad) | Parchedig Gapten Lowe<br>Mr D Maxted |
| **Saron**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs L Jones |

| | |
|---|---|
| **Y Santes Fair, Caerfyrddin**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd P Grice |
| **Teilo Sant**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr R Jones |
| **YSGOL UWCHRADD** | **Penodiadau** |
| **Dyffryn Taf**<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr E Howells |

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21AIN IONAWR 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2019, gan ei fod yn gywir.**

______________________________ ____________________

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DYDDIAD